



Dyddiad cyhoeddi: 14 Awst 2019

Tendr asesiadau risg tân

Diolch am eich e-bost dyddiedig 5 Awst 2020 yn gofyn am wybodaeth o dan Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000. Gofynnoch am:

- enwau a rhifau cofrestru (rhifau Tŷ'r Cwmnïau) ar gyfer yr holl gwmnïau aflwyddiannus, ac eithrio unrhyw fanylion masnachol canlyniad y tendr ar gyfer y tendr Asesiadau Risg Tân.

Gallaf gadarnhau bod gan Trafnidiaeth Cymru wybodaeth sy'n berthnasol i'ch cais. Fodd bynnag, ni allwn rannu'r wybodaeth hon gyda chi. Y rheswm am hyn yw ei bod yn cael ei chwmpasu gan esemptiad adran 43(2) y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth. Mae hyn yn esemptio gwybodaeth pe bai ei datgelu o dan y Ddeddf hon yn neu'n debygol o; niweidio buddiannau masnachol unrhyw berson (gan gynnwys yr awdurdod cyhoeddus sy'n meddu arni). Ystyrir bod gwybodaeth sy'n ymwneud â chynigwyr am gontract Trafnidiaeth Cymru ar gyfer Asesiadau Risg Tân yn cael ei hesemptio o dan adran 43(2) y Ddeddf.

Mae adran 43(2) yn esemptio gwybodaeth pe bai ei datgeliad yn debygol o niweidio buddiannau masnachol unrhyw berson (gan gynnwys yr awdurdod cyhoeddus sy'n meddu arni). Mae Adran 43(2) yn esemptiad cymwys ac mae'n ofynnol i ni gynnal prawf budd cyhoeddus wrth wneud cais am unrhyw esemptiad cymwys. Golyga hyn, ar ôl penderfynu bod yr esemptiad yn berthnasol, fod yn rhaid ystyried y budd cyhoeddus wrth ryddhau'r wybodaeth hon. Os yw'r budd cyhoeddus wrth ddatgelu'r wybodaeth yn gryfach na'r budd cyhoeddus wrth ei dal yn ôl yna nid yw'r esemptiad yn gymwys a bydd yn rhaid ei chyhoeddi. Mae rhagdybiaeth yn y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth y dylid rhyddhau gwybodaeth oni bai bod rhesymau anorfod i'w dal yn ôl.

Roedd yr ystyriaethau o blaid rhyddhau'r wybodaeth yn cynnwys yn ymrwymiad Trafnidiaeth Cymru i ddidwylledd a thryloywder yn ei weithgareddau masnachol, er mwyn galluogi craffu cyhoeddus ac arddangos bod cronfeydd cyhoeddus yn cael eu defnyddio mewn ffordd effeithiol ac effeithlon. Hefyd, mae'n rhaid i gwmnïau'r sector preifat sy'n cymryd rhan mewn gweithgareddau masnachol gyda'r sector cyhoeddus ddisgwyl i rywfaint o wybodaeth am y gweithgareddau hynny gael ei datgelu.

Roedd yr ystyriaethau yn erbyn datgelu yn cynnwys cydnabod y gallai datgelu niweidio enw da cyflenwr aflwyddiannus, gan effeithio ar safle cystadleuol cyflenwyr yn eu marchnadoedd perthnasol a hyder sydd gan eu cwsmeriaid, eu cyflenwyr a'u buddsoddwyr yn eu gweithredoedd masnachol. Mae'n debyg y byddai datgelu yn rhwystro darpar gynigwyr ar gyfer contractau yn y dyfodol rhag cystadlu a rhannu gwybodaeth sensitif fasnachol gyda ni, a fyddai'n effeithio'n negyddol ar ansawdd a maint sail gyflenwyr Trafnidiaeth Cymru. Mae'n rhaid i Trafnidiaeth Cymru gadw hyder masnachol cynigwyr trydydd parti os ydynt yn dewis cymryd rhan mewn gweithgareddau masnachol gyda ni. Gallai rhyddhau'r wybodaeth hon niweidio'r hyder masnachol hwn.



I gloi, mae Trafnidiaeth Cymru wedi pennu nad yw o fudd i'r cyhoedd danseilio buddiannau masnachol cyflenwyr aflwyddiannus. Gan hynny, pennir bod y wybodaeth hon yn cael ei hesemptio rhag cael ei datgelu o dan adran 43(2) y Ddeddf.

Os oes gennych chi unrhyw ymholiadau, mae croeso i chi gysylltu â Trafnidiaeth Cymru.

Yn gywir

Trafnidiaeth Cymru